*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1630 (Cy.209)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mehefin 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 28(6) a 47(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Medi 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio

**2.** Yn rheoliad 3 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011(**3**) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

> "(6) Nid yw cwrs yn gwrs cymhwysol os yw'n gwrs rhan-amser."

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Mehefin 2012

(**1**) 2004 p.8. Mae diwygiadau i adran 28 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2011/691 (Cy.103), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011 ("y prif Reoliadau") yn rhagnodi'r cyrsiau cymhwysol a'r personau cymhwysol at ddibenion adran 28 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004"). Mae cwrs yn gwrs cymhwysol at ddibenion adran 28 os yw wedi ei ragnodi at y diben hwnnw.

Nid oedd y diffiniad o "course" yn adran 41 o Ddeddf 2004, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, yn cynnwys cyrsiau rhan-amser. Diwygiwyd yr adran honno gan adran 77 o Ddeddf Addysg 2011 i gynnwys cyrsiau rhan-amser.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau drwy eithrio cyrsiau rhan-amser rhag cael eu rhagnodi yn gyrsiau cymhwysol at ddibenion adran 28 o Ddeddf 2004.